

## Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

### Trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

#### Ynglŷn â'r arolwg hwn

Ar y 15 Tachwedd 2012 cynhelir yr etholiadau cyntaf y tu allan i Lundain ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) ledled Cymru a Lloegr. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dal prif gwnstabiliaid i gyfrif am blismona yn eu hardal heddlu eu hunain ar ran y cyhoedd. Bydd panelau heddlu a throsedd newydd yn archwilio gweithredoedd a phenderfyniadau pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar gyfer y cyhoedd, gan eu galluogi i ddal Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyfrif. Bydd awdurdodau'r heddlu yn peidio â bod.

Ar dechrau haf 2012<sup>1</sup>, asesodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi (HMIC) sut y mae awdurdodau'r heddlu yn paratoi ar gyfer y newid hwn. Fe archwilion ni eu cynlluniau trawsnewid ac ymweld â phob awdurdod i ofyn:

- A yw awdurdod yr heddlu yn sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012?
- A oes gan awdurdod yr heddlu gynllun i reoli'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?
- A oes trefniadau wedi eu darparu i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwr yr Heddlu a Throseddu?
- A yw rhanddeiliaid eraill yn ymwneud yn llwyr â'r broses trawsnewid?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi yr hyn a ddarganfuom yn Nyfed-Powys. Mae adroddiad thematig, *Preparing for Police and Crime Commissioners*, ar gael o [www.hmic.gov.uk](http://www.hmic.gov.uk)

#### Darganfyddiadau

##### ***Crynodeb***

Mae Awdurdod Dyfed-Powys yn barod wedi darparu cynlluniau cadarn ar gyfer rheoli'r trosglwyddiad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod partneriaid yn cymryd rhan yn y trawsnewid trwy gyfarfodydd rheolaidd a chyfathrebu â'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn y bydd y newidiadau yn ei olygu iddynt hwy.

Mae agwedd busnes fel arfer wedi ei fabwysiadu wrth ddynesu at yr etholiadau, gyda chymorth cynllunio trwy Gymru gyfan (i sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu cydnabod). Mae adroddiad trosglwyddo manwl

---

<sup>1</sup> Digwyddodd cyfarfodydd gydag awdurdodau'r heddlu rhwng Ebrill a Mehefin.

(‘datganiad o’r gorffennol’) a chynllun drafft yr heddlu a throsteddu yn cael ei baratoi, fydd yn helpu Comisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu i weithredu’n effeithiol o’r diwrnod cyntaf. O ganlyniad i etholiadau lleol diweddar mae’r mwyafrif o aelodau awdurdod yr heddlu wedi aros yn eu swyddi; byddant yn parhau â’r ffocws ar flaenoriaethau presennol a chynlluniau’r trawsnewid. Mae aelodau awdurdod yr heddlu i’w canmol am eu hymrwymiad parhaus a’u proffesiynoldeb.

### ***Sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012***

Mae awdurdod yr heddlu yn ymroi yn llwyr i ddarparu arweiniad a rheolaeth gadarn hyd fis Tachwedd, gydag uwch-swyddogion yr heddlu yn cael eu dal i gyfrif am feysydd gwaith penodol sy’n ymwneud â mesurau perfformiad sy’n cynnal cyflawniad y blaenoriaethau plismona.

Mae’r awdurdod yn dal i gymryd penderfyniadau pwysig ynghylch cydweithredu a rheoli gweithlu (yn hytrach na dewis gohirio’r rhain nes bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu newydd yn ei swydd. Darganfu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi bethau newydd hefyd: er enghraifft, mae gan heddluoedd Gwent a De Cymru bellach dîm drylliau ar y cyd.

### ***Cynlluniau i reoli’r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu***

Mae gan Ddyfed-Powys gynllun trawsnewid clir. Fe’i rheolir trwy fwrdd trawsnewid ar y cyd sefydledig, sy’n cael ei gydgadeirio gan y prif gwnstabl a phrif weithredwr awdurdod yr heddlu. Gadewir i bartneriaid wybod beth sy’n digwydd trwy seminarau rhannu gwybodaeth; mae presenoldeb wedi bod yn dda yn y rhain. Mae gweithgor mewn partneriaeth wedi ei sefydlu i gysylltu â phartneriaid ac mae dewisiadau ar gyfer cysylltu’n bellach yn cael eu harchwilio’n barhaus.

Mae’r prif beryglon i drawsnewid wedi cael eu henwi, a chymerwyd camau i’w lleihau. Yn anad dim, mae tystiolaeth bod yr awdurdod yn ystyried sut y gallai unrhyw beryglon effeithio ar gymunedau lleol.

### ***Trefniadau i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu***

Mae’n bwysig bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu sy’n dod i mewn yn gweithio’n effeithiol o’r diwrnod cyntaf. Hwy fydd yn penderfynu pa fodd y dymunant redeg eu swyddfa, dal yr heddlu i gyfrif a chysylltu a’r cyhoedd er mwyn enwi’r blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, mae’r awdurdod yn crynhoi nifer o ddewisiadau ynghylch llywodraethu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu eu hystyried.

Mae awdurdod heddlu Dyfed-Powys yn rhannu gwybodaeth a medrusrwydd gyda’r heddluoedd Cymreig i gyd ac mae’n cymryd rhan ar lefel genedlaethol a Chymru gyfan i sicrhau bod cynlluniau cyllidol ac adroddiadau yn fanwl ac yn cyd-fynd â gofynion cyfreithiol. Mae trefniadau ar gyfer swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu a chynllunio dyddiadurol cynnar dan reolaeth a dylai hyn helpu i sicrhau

trawsnewid rhwydd. Bydd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi yn dilyn rhediad y gwaith hwn drwy'r haf.

### ***Sut y mae rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses trawsnewid***

Mae awdurdod yr heddlu wedi rhoi pwyslais mawr ar gysylltu â phartneriaid eraill (fel yr awdurdodau lleol, swyddfeydd cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol). Mae cynlluniau ar gyfer cyfarwyddo ymgeiswyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu arfaethedig yn eglur ac fe'i rhennir â staff i sicrhau dull gweithredu cyson.

### **Camau nesaf**

Bydd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi yn parhau i fonitro'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gan ganolbwyntio ar drefniadau fydd yn galluogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i weithio'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf.